

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

| | |
|--|---|
| Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration | 1 |
| Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport | 1 |
| Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw Busnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business | 3 |

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Undebau Credyd Credit Unions

Q9 Janice Gregory: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for credit unions in Wales? OAQ0334(SJR) *Transferred for written answer.*

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): My officials are currently drafting a notification to the European Commission on the public funding of credit unions in Wales, based on the recently approved Scottish model.

C9 Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i undebau credyd yng Nghymru? OAQ0334(SJR) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae fy swyddogion wrthi'n drafftio hysbysiad i'r Comisiwn Ewropeaidd ar arian cyhoeddus undebau credyd yng Nghymru, yn seiliedig ar fodel yr Alban a gymeradwywyd yn ddiweddar.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Busnesau Bach Small Businesses

Q11 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the support available for small businesses? OAQ0363(EDT)

C11 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau bach? OAQ0363(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The right type of business support and at the right time is critical to the success of small businesses. Business Eye provides free impartial business support information and directs small businesses to the range of business support services in the public, private and voluntary sectors.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae'r math cywir o gymorth i fusnesau ar yr amser cywir yn hanfodol i lwyddiant busnesau bach. Mae Llygad Busnes yn rhoi gwybodaeth ddiuedd am ddim am gymorth i fusnesau ac yn cyfeirio busnesau bach at yr amrywiaeth o wasanaethau cymorth i fusnesau sydd ar gael yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Busnesau Bach Small Businesses

Q12 Michael German: What action is the Welsh Assembly Government taking to help small businesses? OAQ0378(EDT)

C12 Michael German: Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i helpu busnesau bach? OAQ0378(EDT)

Andrew Davies: The Welsh Assembly Government supports a number of initiatives to help small businesses, including general business advice, specialist support, mentoring activity, support with information and communications technology and research and development, help with procurement opportunities and access to finance. Business Eye provides the main access point for all inquiries from small and medium-sized enterprises.

Andrew Davies: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi nifer o fentrau i helpu busnesau bach, gan gynnwys cyngor cyffredinol ar fusnesau, cymorth arbenigol, gweithgarwch mentora, cymorth gyda thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac ymchwil a datblygu, help gyda chyfluoedd caffael a mynediad i gyllid. Llygad Busnes yw'r prif bwynt mynediad ar gyfer pob ymholiad gan fusnesau bach a chanolig.

Datblygu Economaidd yng Nghonwy Economic Development in Conwy

Q13 Denise Idris Jones: Will the Minister make a statement about economic development in Conwy? OAQ0386(EDT)

C13 Denise Idris Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu economaidd yng Nghonwy? OAQ0386(EDT)

Andrew Davies: 'A Winning Wales' sets out my policies for increasing prosperity and helping people into jobs in all parts of Wales. Team Wales is implementing the strategy's action plan to help fulfil the Welsh Assembly Government's vision of a prosperous Welsh economy.

Andrew Davies: Mae 'Cymru'n Ennill' yn nodi fy mholisiau ar gyfer cynnyddu ffyniant a helpu pobl i ddod o hyd i swyddi ym mhob rhan o Gymru. Mae Tîm Cymru yn gweithredu cynllun gweithredu'r strategaeth i helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o economi lwyddiannus i Gymru.

Adfywio Economaidd yng Nghymoedd y De Economic Regeneration in the South Wales Valleys

Q14 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on his priorities for economic regeneration in the south Wales Valleys? OAQ0376(EDT)

C14 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer adfywio economaidd yng Nghymoedd y De? OAQ0376(EDT)

Andrew Davies: The formal consultation for the Heads of the Valleys strategic framework closed on 30 June 2005. Responses are being analysed and will inform the preparation of a strategy and action plan to take forward the commitments and assist the economic regeneration of the area.

Andrew Davies: Daeth yr ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer fframwaith strategol Blaenau'r Cymoedd i ben ar 30 Mehefin 2005. Caiff yr ymatebion eu dadansoddi a byddant yn llywio'r broses o baratoi strategaeth a chynllun gweithredu i hyrwyddo ymrwymadau a chynorthwyo rhaglen adfywio economaidd yr ardal.

Mewnfuddsoddi Inward Investment

Q15 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on inward investment in Wales? OAQ0356(EDT)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fewnfuddsoddi yng Nghymru? OAQ0356(EDT)

Andrew Davies: The Assembly Government's strong record in increasing employment and encouraging economic growth is supported by inward investment in Wales.

Andrew Davies: Caiff hanes llwyddiannus Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu cyflogaeth ac annog twf economaidd ei gefnogi gan fewnfuddsoddi yng Nghymru.

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw Busnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Y System Cyfiawnder Ieuenctid (Hawliau Plant) The Youth Justice System (Children's Rights)

Q3 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on children's rights within the youth justice system? OAQ0098(BM)
Transferred for written answer by the Minister for Social Justice and Regeneration.

C3 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hawliau plant o fewn y system cyfiawnder ieuenctid? OAQ0098(BM)
Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): Policy on youth justice is primarily a matter for the Youth Justice Board for England and Wales. The Assembly Government shares the board's commitment to the UN Convention on the Rights of the Child, and its requirement for consideration of young people's rights, including those in the youth justice system.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae polisiâu ar gyfiawnder ieuenctid yn bennaf yn fater i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu'r un ymrwymiad â'r bwrdd i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r gofyniad i ystyried hawliau pobl ifanc, gan gynnwys y rhai yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Datblygu Polisi The Development of Policy

Q5 David Melding: What is the Welsh Assembly Government doing to increase the

C5 David Melding: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynyddu

participation of children and young people in the development of policy? OAQ0086(BM) *Transferred for written answer by the Minister for Education and Lifelong Learning.*

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): The participation project increases involvement of children and young people in all appropriate areas of the Welsh Assembly Government's work. The project provides support and training to children and young people as well as officials so that participation in policy development takes place at the earliest stage.

cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn y broses o ddatblygu polisi? OAQ0086(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.*

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: (Jane Davidson): Mae'r prosiect cyfranogi yn cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc ym mhob maes priodol o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth a hyfforddiant i blant a phobl ifanc yn ogystal â swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisiau cyn gynted â phosibl.

Siaradwyr Cymraeg a Saesneg Welsh and English Speakers

Q6 Glyn Davies: Will the Minister make a statement on the equality of treatment of Welsh and English-speaking peoples in Wales? OAQ0088(BM) *Transferred for written answer.*

The Business Minister (Jane Hutt): The Assembly Government is committed to equality of treatment for all people in Wales. Via 'Iaith Pawb', the Welsh language is being mainstreamed into all Assembly Government portfolios and we are leading by example in delivering bilingual services to the public, and encouraging others to do likewise.

C6 Glyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar driniaeth gyfartal i bobl sy'n siarad Cymraeg a phobl sy'n siarad Saesneg yng Nghymru? OAQ0088(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau triniaeth gyfartal i bawb yng Nghymru. Drwy 'Iaith Pawb', caiff yr iaith Gymraeg ei phrif ffrydio i bob un o bortffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yr ydym yn arwain y ffordd drwy esiampl wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, ac annog eraill i wneud yr un peth.